

Gwerthu o bell, archebu drwy'r post a dosbarthu

Sut i reoli busnes bwyd os ydych chi'n gwerthu cynhyrchion ar-lein, ar gyfer tecawê neu i'w dosbarthu.

Mae gwerthu o bell yn golygu unrhyw werthu sy'n digwydd heb gysylltiad wyneb yn wyneb â'r defnyddiwr.

Mae dulliau gwerthu yn cynnwys:

- ar-lein
- negeseuon testun
- galwadau ffôn
- teledu rhyngweithiol
- archebu drwy'r post

Sefydlu busnes

Mae gofyn i chi gofrestru â'ch cyngor lleol 28 diwrnod cyn agor. Gall adran iechyd yr amgylchedd eich cyngor hefyd gynnig cyngor ar gydymffurfio â chyfreithiau diogelwch bwyd a hylendid bwyd.

Gall adrannau [Safonau Masnach](#) gynnig cyngor cyffredinol ar ofynion cyfreithiol ar gyfer prynu a gwerthu nwyddau ar-lein.

Tymheredd

Mae'n rhaid i fwyd o bob math gael ei ddosbarthu i ddefnyddwyr mewn ffordd sy'n sicrhau na ddaw yn anniogel neu'n anaddas i'w fwyta. Rhaid cadw bwyd sydd angen ei oeri yn oer wrth ei gludo. Efallai y bydd angen ei bacio mewn blwch wedi'i inswleiddio gyda gel oeri neu mewn bag oer.

Mae'n rhaid anfon bwyd a anfonir drwy'r post at ddefnyddwyr mewn deunydd pecynnu sy'n ddigon cryf i aros mewn un darn. Ar ôl ei anfon, dylid dosbarthu'r bwyd cyn gynted â phosibl, dros nos yn ddelfrydol. Pan mae'r cwsmer yn archebu, mae'n rhaid dweud wrtho pryd y gall ddisgwyl y pecyn.

Cofynion cyfreithiol ar gyfer bwyd sy'n cael ei werthu ar-lein

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi gwybodaeth i fusnesau ar werthu bwyd ar-lein. Maent yn amlinellu'r gofynion cyfreithiol a'r ystyriaethau diogelwch.

Rydym ni hefyd wedi cynhyrchu canllawiau i awdurdodau lleol wrth ddelio â busnesau sy'n gwerthu bwyd dros y rhyngwyd.

[View Cyngor i fusnesau sy'n gwerthu bwyd ar-lein as PDF](#) (192.21 KB)

[View Bwyd sy'n cael ei Werthu Ar-lein – Canllawiau i Awdurdodau Lleol as PDF](#) (500.33 KB)

PWYSIG

Cyfeiriadau at yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn nogfennau canllaw'r ASB

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wrthi'n diweddarau'r holl gyfeiriadau at yr Undeb Ewropeaidd (UE), er mwyn adlewyrchu'r gyfraith sydd bellach mewn grym yn gywir, ym mhob dogfen ganllaw newydd neu ddiwygiedig a gyhoeddir ar ôl i'r Cyfnod Pontio ddod i ben ddiwedd 2020. Mewn rhai amgylchiadau, efallai na fydd yn ymarferol i ni ddiweddarau'r holl gyfeiriadau at yr UE ar yr adeg yr ydym ni'n cyhoeddi canllawiau newydd neu ddiwygiedig.

Ac eithrio yng Ngogledd Iwerddon, dylid darllen unrhyw gyfeiriadau at Reoliadau'r UE yn y canllawiau hyn i olygu cyfraith yr UE a ddargedwir (retained EU law). Gallwch weld cyfraith yr UE a ddargedwir trwy [Archif Ymadael â'r UE](#) Llywodraeth EM. Dylid darllen y gyfraith hon ochr yn ochr ag unrhyw ddeddfwriaeth Ymadael â'r UE a wnaed i sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n gywir yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig (DU). Mae deddfwriaeth Ymadael â'r UE i'w gweld ar legislation.gov.uk. Yng Ngogledd Iwerddon, bydd cyfraith yr UE yn parhau i fod yn berthnasol mewn perthynas â'r rhan fwyaf o gyfraith hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid, fel a restrir ym [Mhrotocol Gogledd Iwerddon](#), ac ni fydd cyfraith yr UE a ddargedwir yn berthnasol i Ogledd Iwerddon o dan yr amgylchiadau hyn.

Os ydych chi'n gwerthu bwyd drwy'r post neu dros y rhyngwyd, mae'r bwyd yr ydych chi'n ei werthu yn ddarostyngedig i gyfraith bwyd y Deyrnas Unedig. Y prif gyfraith ar werthu o bell yw [Rheoliadau Contractau Defnyddwyr \(Gwybodaeth, Canslo a Chostau Ychwanegol\) 2013](#). Mae'r gyfraith hon yn berthnasol i'r holl nwyddau sy'n cael eu gwerthu o bell, ac nid bwyd yn unig.

Mae'r pynciau cyfreithiol yn cynnwys:

- diogelwch
- cadw cofnodion
- tynnu cynnyrch yn ôl
- galw cynnyrch yn ôl
- hylendid da
- labelu
- penodol i'r math o fwyd yr ydych chi'n ei werthu

Y prif bryder yw cyflwr y bwyd pan fydd yn cyrraedd y prynwr.

Mae'r gyfraith yn mynd i'r afael â:

- yr wybodaeth y mae gofyn i'r gwerthwr ei darparu i'r cwsmer cyn gwerthu
- hawliau i ganslo'r contract
- adfer symiau sydd wedi'u talu wrth ganslo
- adfer nwyddau gan y cwsmer ar ôl canslo
- dosbarthu bwyd a diod i gartref neu weithle defnyddwyr

Os ydych chi'n gwerthu dros y rhyngrwyd, bydd Rheoliadau Masnach Electronig y DU 2002 hefyd yn berthnasol i'ch busnes.

Mae rhagor o wybodaeth am werthu ar-lein ac o bell ar gael ar wefan GOV.UK.

Canllawiau ar gyfer y diwydiant

Mae rhagor o ganllawiau ar gael yn ein [Canllawiau ar gyfer y Diwydiant Bwyd ar Arfer Hylendid Da gyda Bwyd a Werthir drwy'r Post](#) sydd ar gael drwy wefan y Llyfrfa (Saesneg yn unig).